



**PAPUR BRIFFIO AR GYFER
Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL
DYDD IAU 11 HYDREF 2012**

1. Cefndir

Yn ddiweddar, lansiodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda ymgynghoriad ar ei Strategaeth Gwasanaethau Clinigol, sy'n cael ei gynnal rhwng 6 Awst a 29 Hydref 2012.

Diben yr ymgynghoriad yw ceisio canfod barn y cyhoedd a rhanddeiliaid ar ddyfodol gofal iechyd yn ein hardal ac mae'n dilyn cyfnod estynedig o ymgysylltu â chlinigwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd (gweler Adran 4 isod).

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd (gweler Adran 2 isod) yw:

- Gwella iechyd a lles pawb
- Symud o fod yn wasanaethau salwch i fod yn wasanaeth iechyd gan ganolbwyntio ar reoli clefydau cronig a'r heriau demograffig rydym yn eu hwynebu
- Darparu gofal iechyd yn y lleoliad mwyaf addas, gan roi gofal mor agos i'r cartref â phosibl
- Cael gwasanaethau ysbyty sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sydd o safon uchel, sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy ac yn bodloni anghenion ein poblogaeth
- Cael ein cydnabod yn brif system gofal iechyd a chymdeithasol integredig Cymru

Mae ein hymgyngoriad yn ymateb i gyfeiriad strategol cyffredinol Cymru ac mae wedi cymryd i ystyriaeth *Law yn Llaw at Iechyd: Gweledigaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (2011); GIG Cymru: Ffurio Dyfodol Gwell. Adroddiad Comisiwn Bevan Commission 2008 – 2011 (2011); Ein Dyfodol Iach (2009); Cynllunio Iechyd Gwledig – Gwella'r Dull o Gyflenwi Gwasanaethau Ledled Cymru (2009); Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned: Rhaglen Strategol ar gyfer Cyflenwi (2010)* a nifer o strategaethau eraill Cymru gyfan (gweler Adran 3).

Cafodd ein cynlluniau eu trafod gyda'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol ar ddau achlysur - y mwyaf diweddar o'r rhain oedd ym mis Mehefin 2012 (gweler Adran 5 isod).

Mae nifer o ddarnau allweddol o dystiolaeth yn cael eu cyflwyno gyda'r papur briffio hwn:

- Dogfen Ymgynghori
- Crynodeb o'r Ddogfen Ymgynghori
- Holiadur

- Cyflwyniad ein strategaeth (ar ffurf DVD)

Bydd pob adran o'r papur briffio hwn yn cyfeirio i'r adran berthnasol o'r brif Ddogfen Ymgynghori.

Caiff yr ymgynghoriad ei gefnogi gan gyfres o Atodiadau Technegol, sy'n dadansoddi darpariaeth gwasanaethau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ar draws pob agwedd ar ofal iechyd. Dogfennau sylweddol yw'r rhain ac ni chânt eu cyflwyno yma ond maent ar gael yn www.bihyweldda.cymru.nhs.uk/ymgynggori - yn ogystal â manylion ein cynllun ymgynghori ac adnoddau ymgynghori eraill.

2. Egwyddorion Allweddol

Ein nod gydol y broses yw sicrhau y gallwn rhoi gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy er mwyn diwallu anghenion ein poblogaeth (a phoblogaethau byrddau iechyd eraill sy'n defnyddio ein gwasanaethau). (*Gweler y Ddogfen Ymgynghori: Cyflwyniad a gosod y cefndir*).

Rhaid i ni fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu. Mae'r broses wedi'i harwain yn glinigol ac ystyriwyd sawl dewis gennym cyn dod i gasgliad terfynol ar y rhai hynny a oedd yn briodol yn glinigol ac o ran eu darparu (rhoddir mwy o fanylion am hyn yn y *Ddogfen Ymgynghori: Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yn hyn*).

O safbwynt cynaliadwyedd, un her fawr y mae GIG Cymru'n ei hwynebu yw recriwtio a hyfforddi meddygon - yn enwedig ym meysydd Meddygaeth Frys a Phediatreg (rhoddir sylw i'r materion hyn yn y *Ddogfen Ymgynghori: Gwasanaethau ysbyty*).

Ceir crynodeb ariannol yn yr Adroddiadau Technegol (Cefndir a Chyflwyniadau) ac yn y *Ddogfen Ymgynghori: Gwneud i bob ceiniog gyfrif*.

Yn dilyn cytundeb clinigwyr a rhanddeiliad allweddol, gan gynnwys y Cyngor Iechyd Cymuned, defnyddiwyd y meini prawf datblygu canlynol:

- Ansawdd a Diogelwch
- Y Gweithlu
- Hygyrchedd
- Dichonolrwydd
- Cyweddu strategaethau
- Effaith gymdeithasol/economaidd (gan gynnwys effaith ar gydraddoldeb)

3. Aliniad

3.1 Law yn Llaw at Iechyd

Mae ein gweledigaeth wedi'i halinio'n llawn â chyfeiriad strategol y Gweinidog, fel y nodwyd yng ngweledigaeth 5-mllynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG: *Law yn Llaw at Iechyd* (Tachwedd 2011).

Ein hamcanion yw:

- darparu 80% o ofal iechyd mor agos i'r cartref â phosibl gydag elfen sylweddol yn cael ei darparu mewn cyd-destun gofal sylfaenol neu'r gymuned
- sicrhau bod ein gwasanaethau aciwt o'r safon uchaf posibl ac yn gynaliadwy
- canolbwyntio ar wella iechyd ein dinasyddion ac i gefnogi'r amcan hwn, rydym wedi gwneud 10 addewid i'r boblogaeth leol:

Ymhen 3 blynedd, byddwn ni'n

- Helpu 12,000 o bobl i golli pwysau
- Helpu 5,000 o bobl i roi'r gorau i ysmegu neu'u hatal rhag dechrau
- Helpu i atal neu stopio 7,500 o bobl rhag yfed yn ormodol
- Cynyddu nifer y bobl sy'n cael triniaeth mewn lleoliad cymunedol a fyddai wedi cael triniaeth yn yr ysbyty gynt, gan 20,000 y flwyddyn

Ymhen 5 mlynedd, byddwn ni'n

- Helpu i atal 200 o bobl y flwyddyn rhag datblygu clefyd y galon
- Sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, nad yw unrhyw un â chyflwr hirdymor hysbys yn cael eu derbyn yn annisgwyl i'r ysbyty oherwydd y cyflwr hwnnw
- Lleihau nifer y bobl sy'n marw oherwydd canser gan 100 y flwyddyn
- Helpu i atal 125 o bobl y flwyddyn rhag dioddef strôc
- Dyblu nifer y mamau sy'n bwydo eu babanod ar y fron o'u geni hyd at 6 mis oed

Ymhen 10 mlynedd, byddwn ni'n

- Cynyddu disgwyliad oes gan 3 blynedd yn yr ardaloedd â'r disgwyliad oes isaf ac yn gwella ansawdd bywyd i bawb

Mae ein strategaeth yn adeiladu ar yr addewidion hyn ac yn canolbwyntio ar ddatblygu gofal yn agosach i'r cartref, gwella mynediad i'r tîm gofal sylfaenol a mynd i'r afael â'r materion trafndiaeth a geir yn ein hardal wledig.

3.2 Barn Leol

Rydym yn ystyried barn ein poblogaeth ond ein rôl yw sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn ddiogel ac addas yn glinigol, yn gynaliadwy, yn deg o safbwynt mynediad ac o'r ansawdd uchaf.

Rhaid i'n gwasanaethau (boed yn rhai rydym yn eu darparu neu'n eu comisiynu) ddiwallu anghenion ein poblogaeth a rhaid i ni gynllunio i'w cyflenwi gan ystyried ein demograffeg, Safonau'r Coleg Brenhinol, argaeledd y gweithlu, y gallu i gyflenwi a fforddio.

Golyga hyn na fyddwn byth yn gallu darparu'r gwasanaethau i gyd y mae ein poblogaeth amrywiol eu heisiau.

Serch hynny, mae ein gweledigaeth yn cynnwys dod â rhai gwasanaethau yn ôl, ac ymrwymiad sy'n dweud, pe bai angen i gleifion deithio i gael triniaeth, cânt eu dychwelyd i'r lleoliad lleol cyn gynted ag y byddant yn ffit i deithio.

Mae ein proses ymgysylltu wedi dangos i ni fod cyfran sylweddol o'n poblogaeth yn cefnogi'r egwyddor o ofal yn agosach i'r cartref, bod ansawdd a diogelwch o'r pwys mwyaf a'n bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym. Ond, mae'r farn wedi'i rhannu'n gyfartal o ran cefnogi gwasanaethau arbenigol ar lai o safleoedd neu beidio (gweler y *Ddogfen Ymgynghori: Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yn hyn*).


4. Y Broses Ymgynghori

Rydym wedi dilyn Canllawiau Gweinidogol: *Canllaw ar Ymgysylltu ac Ymgynghori ar Newidiadau i Wasanaethau Iechyd* – a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, sy'n disgrifio proses dau gam ar gyfer ymgynghori ac mae'r bwrdd wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio ar bob cam.

Mae'r diagram isod yn disgrifio'r broses ymgysylltu ac ymgynghori rhwng mis Ebrill 2010 a lansio'r ymgynghoriad ym mis Awst 2012.

Ein Taith Y Broses Ymgysylltu a Arweinir yn Glinigol

Datblygu Strategaeth Gwasanaethau Clinigol Hywel Dda



1

Bwriedir i'r broses hon fod yn gadarn, yn gynhwysfawr ac yn gynhwysol ac mae cynllun y cyfnod ymgysylltu ac ymgynghori wedi'u sicrhau gan y Consultation Institute (sef arbenigwyr cydnabyddedig ym maes ymgynghori). Rydym wedi ceisio bod yn arloesol ac rydym hefyd wedi mabwysiadu arfer da, ble bynnag y bo hynny'n bosibl.

4.1 Dadansoddi Ymatebion

Yn ystod y cyfnod estynedig o ymgysylltu â'n dinasyddion (Rhagfyr 2011 – Ebrill 2012), gofynnem am adborth ar ein gweledigaeth.

Comisiynwyd cwmni annibynnol gennym - Opinion Research Services (ORS) - i goladu a dadansoddi'r adborth a chyhoeddi'r canfyddiadau. Mae'r adroddiad hwn a'r atodiad cysylltiedig ar gael yn www.bihyweldda.cymru.nhs.uk/ymgyngghori a disgrifir y broses mewn manylder yn y *Ddogfen Ymgynghori: Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yn hyn (y broses ymgysylltu ac ymgynghori)*.

Mae proses debyg wedi'i mabwysiadu ar gyfer y cyfnod ymgynghori lle, unwaith eto, bydd gwaith dadansoddi annibynnol o'r adborth a geir.

4.2 Effaith ar y Cynlluniau

Mae ein dogfen ymgynghori yn trafod materion penodol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys trafndiaeth (gweler y *Ddogfen Ymgynghori: Mynd i'r adael â thrafnidiaeth*);

adran benodol am Ysbyty Tywysog Philip; a'r rheswm nad oes rhai gwasanaethau arbenigol ar y safle.

Nododd y broses ymgysylltu rai materion penodol:

- Ysbyty Bronglais - roedd yr opsiynau gwreiddiol yn cynnwys ystod o gynigion i ganoli gwasanaethau i ffwrdd o'r safle. O ganlyniad i'r adborth a gafwyd - ac wrth gydnabod ei leoliad unigryw a'i bwysigrwydd strategol - cafodd yr opsiynau hyn eu tynnu oddi ar y dewisidau a ffafrir yn yr ymgynghoriad terfynol.
- Gwasanaethau argyfwng Ysbyty Tywysog Philip - cafodd yr opsiynau a gynigwyd ar gyfer ymgynghori eu haddasu er mwyn cynnwys Uned Derbyniadau Meddygol Argyfwng a chynnal y derbyniadau meddygol ar y safle - doedd yr un o'r rhain yn y dewis gwreiddiol.

Rhaid i gynigion amgen o ran ad-drefnu gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad fod yn ddiogel a chynaliadwy, a rhaid bod modd eu darparu, o ran cyllid ac o ran staffio meddygol, a rhaid i'n clinigwyr eu cefnogi. Pe bai dewisiadau amgen yn cael eu cynnig, byddwn yn cynnal proses o werthuso dewisiadau diwygiedig (gweler tudalen 13 o'r Ddogfen Ymgynghori), a fyddai'n cael ei hystyried gan ein cynllunwyr a'n timau meddygol cyn gwneud cynigion terfynol i'r bwrdd.

5. Fforwm Clinigol Cenedlaethol

Mae'r bwrdd iechyd wedi cyflwyno i'r Fforwm Clinigol Cenedlaethol ar ddau achlysur:

- Rhagfyr 2011 – lle nodwyd nifer o faterion posibl, yn enwedig o safbwynt cynaliadwyedd rhai rotâu meddygol.
- Mehefin 2012 - lle nododd y Fforwm gefnogaeth eang i'n cynlluniau. Dywedodd y Fforwm fod y digwyddiadau arfaethedig ar gyfer ymgynghori yn addas yn glinigol ac yn ddiogel. Roedd y Fforwm wedi'i annog bod ein syniadau wedi datblygu ers cyfarfod Rhagfyr 2011, gan ganolbwyntio'n sylweddol ar wasanaethau y tu allan i ysbytai.

6. Y Camau Nesaf

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 29 Hydref 2012 ac, yn dilyn cyfnod i ystyried yr adborth ac a oes datrysiadau amgen, bydd y bwrdd iechyd yn cymeradwyo'r dewisiadau terfynol a fydd yn cael eu gweithredu.

Caiff y dewisiadau terfynol eu rhoi ar waith fesul tipyn a bydd mecanwaith porthgadw cryf yn cael ei sefydlu o dan gyfarwyddyd Bwrdd Gweithredu, gyda Grwpiau Rhaglen Clinigol yn cynllunio'r llwybrau gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i gynnwys ein dinasyddion wrth ddatblygu llwybrau gyda "Chyngor Cleifion" fel rhan annatod o'r broses porthgadw a chydag aelodau o'n cynllun ymgysylltu (Siarad Iechyd/Talking Health) fel rhan annatod o brosesau'r Grwpiau Rhaglen Clinigol. (I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun ewch i www.siaradiechyd.wales.nhs.uk).

Mae ein gweledigaeth wedi'i phriodoli ar agweddau ar ddatblygu cyfalaf a'r llinell amser gysylltiedig.

Ceir rhagor o fanylion yn y *Ddogfen Ymgynghori: Y modd y byddwn yn darparu'r newidiadau.*